



Teitl y Cyfarfod: Panel Cyswllt Gorllewin Cymru

**Dyddiad a
Lleoliad y
Cyfarfod:** Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Aberystwyth, 9 Mawrth 2016

Presenoldeb

ENW	SEFYDLIAD
Martyn Evans CADEIRYDD	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rhian Thomas	Cyfoeth Naturiol Cymru
Huw Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ceri Jones	Cyfoeth Naturiol Cymru
Helen Cariss	Cyfoeth Naturiol Cymru
Helen Millband	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jill Brown	Cyfoeth Naturiol Cymru
James Dowling	Llywodraeth Cymru
Frank Jones	Afonydd Cymru
Dafydd Jarrett	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Paul Henderson	Dŵr Cymru
Carl Banton	Yr Awdurdod Glo
Gareth Lloyd	Parc Cenedlaethol Eryri
Jonathan Monk	Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
Jean-Francois Dulong	CLILC
Harriet Thomas	Lagŵn Llanwol Bae Abertawe
Richard Livock	PUMA Energy
Bernard Griffiths	Undeb Amaethwyr Cymru
Bob Gilchrist	Cyngor Prynwyr Dŵr
Martin Bishop	Confor

Ymddiheuriadau: Jonathan Monk, Trevor West, Paul Donovan, Jim Evans, Paul Southall

1. Croeso, cofnodion a chamau gweithredu (Papur 1)

Croesawodd Martyn Evans bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd agenda'r diwrnod, gan gynnwys y briffio iechyd a diogelwch.

Gwnaeth y panel adolygu cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Roedd yr holl gamau gweithredu wedi cael eu cwblhau.

2. Cynllun Rheoli Basn Afon 2015–2021

2.1 Diweddariad (Papur 2 a 3)

Darparodd Ceri Jones ddiweddariad ers i Gynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru gael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr (Papur 2). Roedd hwn yn cynnwys trosolwg o'r Rhaglen Ddarparu, Rhaglen o Fesurau a rhaglen fwy lleol o fesurau. Roedd y drafodaeth yn cynnwys adolygiad o'r cylch gorchwyl ar gyfer y Panel Cyswllt (Papur 3) nawr bod y ffocws yn symud o gynllunio i ddarparu; roedd hefyd diweddariad ar y gwaith o ran dosbarthu pysgod mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a oedd wedi cael ei drafod yng nghyfarfod blaenorol y Panel Cyswllt.

Cytunodd y panel fod angen i'r ffocws fod ar ddarpariaeth ac roedd rhai pryderon ynghylch amseru rhaglenni allweddol, yn benodol os oes oedi yn narpariaeth y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; cododd Paul Henderson bryderon ynghylch alinio gyda Rhaglen y Diwydiant Dŵr a chyfleoedd posibl a gollwyd.

Awgrymwyd ein bod yn edrych ar y gwersi a ddysgwyd o'r ail gylchred, sy'n cael ei hadolygu gan Gyfoeth Naturiol Cymru dros y misoedd nesaf. Dylai hyn hefyd werthuso'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglenni monitro a dosbarthu cyfredol. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r panel yn y cyfarfod nesaf. **(Cam gweithredu: CJ)**

Gofynnodd y panel am y gwaith economeg ac, yn benodol, sut y mae hwn yn cyd-fynd â Chynllunio Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal ynghyd ag effeithiau Datganiadau Ardal. Cytunwyd ein bod yn gallu cynnwys hyn fel eitem agenda ar gyfer y cyfarfod panel nesaf a chafodd yr eitem ei hychwanegu hefyd i'r adran 'Edrych Ymlaen'. **(Cam gweithredu: CJ)**

Cytunwyd bod angen i ni ddatblygu set eglur o gamau gweithredu o bwy sy'n gwneud beth, lle ac erbyn pryd, a hefyd y dylem ddefnyddio'r dosbarthiad a monitro sylfaenol i ddangos newidiadau a gwelliannau sydd wedi cael eu cynnal. **(Cam gweithredu: CJ)**

Darparodd Ceri Jones ddiweddariad ar y dosbarthiad, yn enwedig y gwaith dosbarthu pysgod yn ymwneud â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu'r dull a'r amserlenni ar gyfer y rhaglen fonitro a dosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn eu cyfanrwydd, ac unwaith i hyn fod yn orffenedig, bydd y

manylion yn cael eu rhannu gyda'r panel (**Cam Gweithredu: CJ**). Mewn perthynas â gwaith dosbarthu pysgod y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr, trafododd Ceri Jones y dosbarthiad dros dro ar gyfer 2016 a chytunwyd y byddwn yn parhau i weithio gydag Afonydd Cymru (Frank Jones) i edrych ar y data hwn ac ar opsiynau i wella dull dosbarthu pysgod y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr (**Cam Gweithredu: CJ ac FJ**).

Trafodwyd awgrymiadau ar gyfer y rhagolwg gan gynnwys:

- Ystyried sut y gellir diweddarau canllawiau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr ar gyfer awdurdodau lleol.
- Nodi lle y mae buddion cilyddol o ran darparu camau gweithredu ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynlluniau Rheoli Basn Afon.
- Cynllunio Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal

2.2 Diweddariad Llywodraeth Cymru

Darparodd James Dowling ddiweddariad geiriol a dechreuodd gyda'r ddau faes allweddol ar gyfer y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

1) Rhesymau dros fethiant – prosiect mwyngloddiau metel. Mae'r Awdurdod Glo wedi casglu data o'r adnoddau amrywiol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ac maent yn ei adolygu gyda'r bwriad o lunio rhestr raddedig o 13 safle mwyngloddiau metel y gellir cwblhau gwaith adfer ar dri neu bedwar ohonynt yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf. Bydd y tri neu bedwar sydd ar frig y rhestr yn cael eu hargymell ar gyfer gwaith adfer, yn ddibynnol ar gyllid. Cynigiodd Carl Banton rannu'r fethodoleg a manylion y safleoedd a oedd yn cael eu hystyried gyda'r panel. (**Cam gweithredu: CB**)

2) Bydd Bwrdd Rhaglen Llygredd Gwasgaredig yn cael ei sefydlu i ddatblygu datrysiadau i adeiladu ar ac ategu at y gwaith o gyflenwi prosiectau lleol. Bydd y bwrdd yn helpu i gydlynu gweithgareddau a chyfrannu at ddarparu gwelliannau.

Bydd Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru'n archwilio ffyrdd gwell o weithio gyda grwpiau amaethyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod â Chyswllt Ffermio i drafod eu rhaglen waith a chyfleoedd i weithio gyda nhw.

Awgrymodd y panel y dylai'r gwaith llygredd gwasgaredig ryngweithio gyda'r Rhaglen Datblygu Gwledig ac amcanion Glastir a Chynllun Creu Coetir Glastir. Bydd James yn darparu diweddariad o'r cynnydd yn y cyfarfod nesaf. (**Cam gweithredu: JD**)

3. Darpariaeth

3.1 Rhaglen Genedlaethol (Papur 4)

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cael eu cyhoeddi ac mae gwybodaeth fanwl o'r camau gweithredu ar gael ar

<https://naturalresources.wales/water/quality/river-basin-management-plans-published/?lang=cy>

Mae'r canlyniadau dosbarthu diweddaraf a'r rhaglen o fesurau ar gael ar wefan Arsylwi Dyfroedd Cymru

<http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/>

Darparodd Ceri Jones drosolwg o'r Rhaglen Genedlaethol fel y'i nodwyd yn y papur ategol.

Mae angen dilyn trywydd y ddarpariaeth a'i gwerthuso; gwnaeth y Panel sylw hefyd fod angen i ni wybod pa gamau gweithredu sy'n cael eu cyllido a pha rhai nad ydynt yn cael eu cyllido, yn benodol ar gyfer y camau gweithredu hynny a nodwyd yn y Cynlluniau Gwella Perfformiad. Dylid cynnwys y wybodaeth hon wrth ddilyn trywydd a gwerthuso'r Rhaglen Ddarparu (**Cam Gweithredu: CJ**).

Nodwyd y gallai'r lleihad o ran taliadau Adran 15 gael effaith ar ddarpariaeth gan fod cyllido Adran 15 yn fesur effeithiol.

3.2 Rhaglen Leol

Rhoddodd Helen Millband gyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth leol o fewn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.

- Mae 21 cyrff dŵr wedi cael eu nodi lle'r ydym yn bwriadu cyrraedd safon 'da' erbyn 2021.
- Mae pedwar corff dŵr wedi cael eu nodi sydd angen eu gwella i safon 'cymedrol' o 'gwael'.

Yn lleol, bydd ffocws hefyd ar rwystro dirywiad fel rhan o swydd dydd Cyfoeth Naturiol Cymru a gweithio i fynd i'r afael â chyrff dŵr a dalgylchoedd mwy cymhleth. I gyflawni'r gwaith hwn, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y dalgylchoedd. Mae'r gwaith hwn hefyd yn cael ei gysylltu â phrofion y Cynllun Adfer Natur. Gofynnwyd am ddiweddariad ar waith y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer Llwybr Dyfi a Thawe am gyfarfod yn y dyfodol. (**Cam Gweithredu: HM**)

Cododd y panel yr angen am ganllawiau o ran asesu dim dirywiad. Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn cael ei rannu â'r panel pan fydd ar gael. (**Cam gweithredu: CJ**)

Rhoddodd Paul Henderson gyflwyniad ar Raglen Amgylchedd Genedlaethol Ansawdd Dŵr Dŵr Cymru. Yn AMP6, bydd Dŵr Cymru yn cynnal archwiliadau, cynyddu monitro ac yn

gwella asedau i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn diwallu targedau Ewropeidd a chenedlaethol mewn perthynas â gwella dŵr.

Rhoddodd Frank Jones gyflwyniad a rhannodd bapur am y potensial i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2016–2021) gan Afonydd Cymru. Roedd hwn yn cynnwys safbwynt o'r cyfyngiadau i ddarpariaeth o ganlyniad i waith dosbarthu pysgod y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, proses y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac awgrymiad o ddatgysylltiad lleol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru o ran ddarpariaeth. Roedd y papur a'r cyflwyniad hefyd yn canolbwyntio ar yr effeithiau mewn perthynas ag amaethyddiaeth a choedwigaeth, yn benodol calchu, ynghyd ag awgrymiadau ynghylch ffordd ymlaen. Cafodd y panel drafodaeth agored am y problemau hyn ac roedd ymateb cymysg i'r cyfyngiadau a nodwyd ym mhapur Frank yn benodol o ran amaethyddiaeth. Ystyriodd y panel mai'r ffordd orau o ddatblygu hyn oedd sicrhau bod y panel yn gweithio mewn ffordd ymarferol a chydweithrediadol yn unol â chylch gorchwyl y panel.

Gwnaeth Paul Henderson sylw os yw'r sefyllfa o ran calchu yn bolisi sy'n effeithio Cymru gyfan, fel y polisi deorfeydd pysgod, yna byddai'r panel yn dymuno cael ei gynghori, a dylid gwneud hynny.

Rhoddodd Dafydd Jarrett ddiweddiariad a rhannodd bapur ar raddfa'r problemau a'r camau gweithredu ymarferol y mae ffermwyr yn eu gwneud ar y tir i wella ansawdd dŵr.

Nid oedd digon o amser am drafodaeth lawn am ddarpariaeth nac ar gyfer sectorau eraill i gyflwyno eu rhaglenni gwaith. Cytunwyd y byddai'r rhain yn cael eu hanfon at Ceri Jones y tu allan i'r cyfarfod, a bydd Ceri'n dilyn trywydd hwn fel ein bod yn gallu sicrhau bod cyfarfodydd yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddarpariaeth. **(Cam gweithredu: CJ)**

4. Dyddiad y cyfarfod nesaf – i'w gadarnhau. Cyfarfod ffôn i'w drefnu i drafod darpariaeth os oes angen. Awgrym ar gyfer ymweliad safle.

Terfynwyd am 1.30pm.

Panel Cyswilt Gorllewin Cymru – Aelodaeth 2016

Sector	Sefydliad	Enw
Coedwigaeth	Cyfoeth Naturiol Cymru	Helen Carris
Coedwigaeth	Confor	Martin Bishop
Diwydiant	Puma Energy	Richard Livock
Cynefinoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru	Huw Williams
Ffermio – Cymru	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr	Dafydd Jarrett

Porthladdoedd	Porthladd Aberdaugleddau	Jonathan Monk
Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol	Afonydd Cymru	Frank Jones
Parciau Cenedlaethol	Parc Cenedlaethol Eryri	Gareth Lloyd
Awdurdodau Lleol – Cymru	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Jean-Francois Dulong
Pysgodfeydd Môr	Pysgodfeydd Môr Llywodraeth Cymru	Jeremy Frost
Defnyddwyr Dŵr	Cyngor Prynwyr Dŵr	Bob Gilchrist (a chopi i Lia Moutselou)
Adloniant	Escape Routes Cymru	Paul Donovan
Cwmnïau Dŵr	Dŵr Cymru	Paul Henderson
Ffermio – Cymru	Undeb Amaethwyr Cymru	Bernard Griffiths
Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol – Cynrychiolydd Cyswllt Amgylchedd Cymru	Cymdeithas Eogiaid a Brithyllod	Richard Garner Williams
Mwyngloddio	Yr Awdurdod Glo	Carl Banton
Rheolaeth Tir	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Paul Southall
Pysgodfeydd Môr	Sefydliad Pysgotwyr Cymru	Jim Evans
Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru	James Dowling